Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)

Mehefin 2018

Ar 11 Mehefin 2018, cafodd Bil Llywodraeth, Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 22 Mai 2018, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 12 Mehefin 2018, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 26 Hydref 2018.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 14 Rhagfyr 2018, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.